

Taith Skyra: Defnyddio Ffon y Daith er mwyn Helpu i Ail-adrodd Stori


Mae ffyn teithiau yn cael eu defnyddio gan bobl ar draws y byd i ail-adrodd straeon o'u teithiau. Mae deunyddiau yn cael eu casglu ar hyd y ffordd ac yn cael eu rhoi ar ffon gan ddefnyddio gwlan neu edau lliwgar i'w hatodi.

Amcan Dysgu: Gallu adalw taith Skyra mewn trefn gronolegol a chydabod a datblygu empathi yn ymwneud â sut mae gwahanol ddigwyddiadau yn y stori yn effeithio ar emosiynau Skyra

Dibenion y Cwricwlwm: Unigolion iach, hyderus / dinasyddion moesegol, gwybodus.

MDaPh: Mathemateg a Rhifedd / Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu / Iechyd a Lles / Dyniaethau

Adnoddau:

 Camera /Dyfais



Mynediad at ardal allanol neu dod â deunyddiau i mewn ar gyfer gweithgaredd dosbarth.



Llinyn, cordyn, rhuban neu wlan



Blociau, deunyddiau, modelau



Deunyddiau naturiol—brigau, ffyn, dail, ffwr, mwsogl



Gweithgaredd

Cyn dechrau'r sesiwn hwn, dylai'ch dysgwyr fod yn gyfarwydd â stori Skyra a'i Ffrindiau Newydd.

Aseswch wybodaeth flaenorol eich dysgwyr o'r stori wrth eistedd mewn cylch. Gallwch chi ddewis gwneud hyn drwy amrywiaeth o opsiynau asesu, e.e. cwestiynau agored, neu system goleuadau traffig / bodiau i fyny.



Dangoswch ffon y daith Skyra i'ch dysgwyr ac archwilio'r elfennau a'r deunyddiau rydych chi'n gallu eu gweld.

Gofynnwch i'ch dysgwyr eich helpu i **ail-adrodd y stori** gan ddefnyddio'r ffon y daith fel sbardun. **Nodwch sut oedd Skyra yn teimlo** yn ystod rhai camau o'i thaith a sut mae ei theimladau yn newid drwy'r stori.

Sut ydych chi'n meddwl oedd Skyra yn teimlo pan oedd rhaid iddi hi adael ei chartref? Ydych chi'n meddwl ei bod hi eisiau gadael?

Ydych chi'n gallu meddwl am unrhyw esiamplau bywyd go iawn le mae'n *rhaid* i bobl adael eu cartrefi?

Sut ydych chi'n meddwl oedd hi'n teimlo pan gyrhaeddodd hi'r Goedwig Hyfryd?



Taith Skyra: Defnyddio Ffon y Daith er mwyn Helpu i Ail-adrodd Stori

3

Os oes gennych fynediad at ardal allanol lle gall y plant fynd ar daith, gallwch chi fynd â grwpiau bach o ddysgwyr am dro lle maen nhw'n gallu creu eu ffyn teithiau eu hunain. Bydd angen dechrau gyda ffon ac edau fel y gallwch chi ychwanegu deunyddiau ar y ffordd.

Fel arall, gallwch chi gasglu amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol i'w defnyddio yn y dosbarth.

Gofynnwch i'ch dysgwyr feddwl am daith sy'n gyfarwydd neu'n bwysig. Gall fod yn daith i'r ysgol, taith i dŷ Mam-gu a Thad-cu neu efallai gwyliau arbennig iawn.

Dylai'r dysgwyr feddwl am o leiaf 3 cam pwysig ar y daith y maen nhw eisiau eu cynrychioli ar eu ffyn teithiau, dewiswch y deunyddiau a'u clymu ar eu ffyn.



YMESTYN

Gofynnwch i'ch dysgwyr ffilmio ei gilydd mewn parau yn ail-ddweud y daith, gan ddefnyddio'r ffon y daith i'w helpu.

5

Gyda'ch dysgwyr yn eistedd mewn cylch, anogwch nhw unwaith eto i ail-ddweud stori Skyra gan ddefnyddio'r ffon y daith. Wrth i ddysgwyr sôn am gamau ei thaith, defnyddiwch **flociau, ffabrig a modelau i greu map 3D o'i thaith** yng nghanol y cylch. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried safbwyntiau gwahanol, e.e. Skyra o'r tir o gymharu â'r hyn mae Agla yn gallu ei weld o'r awyr. Tynnwch lun i greu 'golwg oddi uchod'.



DYSGWYR UCHELGEISOL

Gorffennwch y sesiwn gyda'ch dysgwyr mewn cylch unwaith eto. Gofynnwch a yw eu gwybodaeth o'r stori wedi gwella? Beth *maen nhw* wedi'i wneud heddiw i ymglyfarwyddo â'r stori? Beth sydd wedi gweithio iddyn nhw?